Active citizenship for Wales and the world

# CEWC–CYMRU NEWSLETTER SPRING 08

CEWC CYMRU



Design elfen.co.uk

## RESOLUTIONS THAT REMODEL THE WORLD




Over the past 6 months, more than 700 students have taken part in CEWC-Cymru's popular Model United Nations simulations. We have organised 7 day conferences around Wales (6 bilingually and one in Welsh only), as well as smaller sessions for individual schools and colleges.

At each event, students represent the views of different countries and organisations, trying to reach international agreement on important global issues. Most of this year's events have focused on Climate Change and Global Trade, and the relationship between the two themes. Other topics have included fresh water access and the Darfur conflict.

Fiona Cowie, lecturer at Coleg Menai, Bangor, says: "Our A level students take part each year. It's a fantastic experience for them and gives them an insight into the work of the United Nations. It is wonderful that they learn so much from this practical event."

If you want to get involved, but don't want to wait until the next conferences in November 2008, why not ask us to organise a Model UN event at your school or college? We can provide half-day or whole-day activities for students aged 9 to 18, tailoring the content to suit your group. Discounted rates are available for Affiliate Members of CEWC-Cymru. For more details, e-mail cewc@wcia.org.uk.

### GLANTAF CELEBRATES EYP SUCCESS

Seven delighted Cardiff students will be representing the South Wales region at the UK final of the European Youth Parliament (EYP), following a successful day of debating human rights in Zimbabwe, the Capital of Culture initiative, and other topics from a European perspective. The EYP Forum took place in Swansea in March, and Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (Cardiff) was named the top team in terms of teamwork, presentation skills and understanding of issues.

The other participating schools were Bedwas High School (Caerphilly), Bishop Vaughan Catholic Comprehensive School (Swansea), Brynmawr School, Cardinal Newman R C School (Rhydyfelin), Greenhill School (Tenby), Howell's School (Cardiff), Dyffryn Taf School (Whitland), Ysgol Gyfun Llanhari (Pontyclun) and Ysgol Gyfun Gŵyr (Swansea).

www.cewc-cymru.org.uk

## REGISTER NOW FOR OUR SUMMER TERM EVENTS

### 9 MAY 2008: MODEL NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

**Tŷ Hywel, National Assembly for Wales, Cardiff Bay**



This annual event enables students to discuss important issues in Wales, and provides them with an insight into the workings of democracy. It is designed to fit with the busy lives of students who cannot carry out detailed research before the event.

Each student is assigned the role of a **civil servant** (representing an Assembly committee), an **Assembly Member** (Labour, Plaid Cymru, Conservative or Liberal Democrat), or a **Minister** of the Welsh Assembly Government.

In the morning, students work in groups with real Assembly representatives, contributing to consultations on issues such as education policy, sustainability and culture. In the afternoon, all participants come together in a plenary session in the 'old' Assembly Chamber, to debate the policies devised in the morning.

The Model National Assembly is open to students aged 14-18 from any school, college or youth group in Wales, and is designed to complement areas of the school curriculum including Education for Sustainable Development and Global Citizenship. For full details, e-mail cewc@wcia.org.uk for a letter and registration form.

### 1 & 2 MAY 2008: LEVEL 1 TRAINING COURSE IN PHILOSOPHY FOR CHILDREN

**Temple of Peace, Cardiff**



If you want to get your pupils thinking critically and creatively, then this 2-day course is for you. It provides a full introduction to the Philosophy for Children (P4C) method of education, and is accredited by SAPERE, which promotes P4C throughout the UK.

As well as helping to deliver subject areas, P4C can enhance Personal and Social Education, Education for Sustainable Development and Global Citizenship, and the Thinking Skills requirements of the 2008 national curriculum.

Open discussion and collaboration are encouraged throughout the course, which includes the following elements:

- Introduction to the theory and benefits of P4C
- Practical sessions – learn through trying out the P4C method
- Effective facilitation of philosophical enquiry
- Guidance on curriculum links and the timetabling of P4C
- Advice on useful resources
- Opportunities to watch videos of P4C in action

This non-residential course is charged at **£225 per person** (£160 for a 2nd or subsequent teacher from the same school). This covers 2 full days of training, lunch and refreshments, course handouts, 2 course handbooks, a certificate, and the chance to join SAPERE for £15 (usually £30).

Visit www.cewc-cymru.org.uk to download a course registration form.

## LINKING LIVES IN WALES AND SPAIN



CEWC-Cymru's parent organisation, the Welsh Centre for International Affairs, is supporting a major bilingual project on the role of Wales in the Spanish Civil War (1936-39). This is an excellent opportunity for schools to get involved in discussing issues such as the nature of war, heroism, the value of history, and our relationships with people in other parts of the world.

The ***Wise and Foolish Dreamers*** project includes a touring exhibition with DVD, a colourful book and posters, and educational materials for teachers and students. The next stops on the exhibition tour are as follows:

**5 April to 10 May 2008** Pontypool Museum
**12 May to 11 July 2008** Bersham Heritage Centre, Wrexham

To arrange an educational workshop, or to find out more, e-mail stephenthomas@wcia.org.uk.

## JOIN CEWC-CYMRU AND GET MORE FROM OUR SERVICES!

If you are looking to develop your school's work in global citizenship education, why not sign up as a member? We offer two forms of membership:

### SCHOOL/COLLEGE AFFILIATE MEMBERSHIP

This is CEWC-Cymru's traditional form of membership. Schools and colleges which join as Affiliate Members are entitled to various benefits, including:

- Free school visits and workshops on global topics
- Free taster sessions on critical thinking, democratic participation and other CEWC-Cymru project work
- Reduced rates for in-service training sessions
- Reduced rates for participation in our conferences and events

### ONLINE MEMBERSHIP SYSTEM

This provides access to over 60 lesson plans, our *Skills for Democracy* teaching pack, and other useful resources.

For full details of both membership types, visit www.cewc-cymru.org.uk/membership.

## FREE RESOURCES

CEWC-Cymru's archives contain a wealth of teaching resources, journals, and books on global issues like poverty, sustainable development, human rights and conflict. We would like to offer member schools the chance to receive, **free of charge**, resources which might help you to deliver global citizenship education. Please e-mail us at cewc@wcia.org.uk, giving a brief description of what you are looking for, and we'll aim to send whatever meets your needs.

CEWC-CYMRU, TEMPLE OF PEACE, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3AP
TEL (029) 2022 8549 FAX (029) 2064 0333 E-MAIL cewc@wcia.org.uk
Reg. charity no. 1048759

Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

CEWC–CYMRU

# CYLCHLYTHYR

GWANWYN 08

CEWC CYMRU

## PENDERFYNIADAU SY'N CYNNIG MODELAU NEWYDD I'R BYD




Yn ystod y 6 mis diwethaf, mae dros 700 o fyfyrwyr wedi cymryd rhan yn efelychiadau poblogaidd CEWC-Cymru, Cynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig. Rydym wedi trefnu 7 cynhadledd undydd mewn gwahanol rannau o Gymru (6 yn ddwyieithog ac un yn Gymraeg yn unig), yn ogystal â sesiynau byrrach ar gyfer ysgolion a cholegau unigol.

Ym mhob digwyddiad, mae myfyrwyr yn cynrychioli gwahanol farn nifer o wledydd a chyrff, gan geisio cyrraedd cytundeb ar lefel ryngwladol ar faterion o bwys yn fyd-eang. Bu'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau eleni yn canolbwyntio ar Newid yn yr Hinsawdd a Masnach Fyd-eang, a'r berthynas rhwng y ddwy thema. Ymhlith pynciau eraill, trafodwyd mynediad at ddŵr croyw a'r gwrthdaro yn Darfur.

Yn ôl Fiona Cowie, darlithydd yng Ngholeg Menai, Bangor: "Mae ein myfyrwyr lefel A yn cymryd rhan bob blwyddyn. Mae'n brofiad gwych iddynt ac mae'n rhoi syniad go iawn iddynt am waith y Cenhedloedd Unedig. Mae'n beth gwych eu bod nhw'n dysgu cymaint yn ystod y digwyddiad ymarferol hwn."

Os ydych am gymryd rhan yn un o'r cyfarfodydd hyn, ond heb fod yn awyddus i aros hyd y cynadleddau nesaf ym mis Tachwedd 2008, beth am ofyn inni drefnu Cynhadledd Model y Cenhedloedd Unedig yn eich ysgol neu goleg? Gallwn drefnu digwyddiadau i fyfyrwyr rhwng 9 a 18 oed, am hanner diwrnod neu ddiwrnod cyfan, gan deilwrio'r cynnwys at anghenion eich grŵp. Mae prisiau gostyngol ar gael ar gyfer ysgolion a cholegau sy'n Aelodau Cyswllt o CEWC-Cymru. Am ragor o fanylion, e-bostiwch cewc@wcia.org.uk.

### GLANTAF YN DATHLU LLWYDDIANT

Bydd saith o ddisgyblion o Gaerdydd wrth eu bodd cyn bo hir wrth iddynt gynrychioli rhanbarth De Cymru yng ngornest derfynol y DU o'r Senedd Ieuenctid Ewropeaidd (SIE), yn sgil diwrnod llwyddiannus yn dadlau ynglŷn â hawliau dynol yn Simbabwe, menter Prifddinas Diwylliant, a phynciau eraill o safbwynt Ewropeaidd. Cynhaliwyd Fforwm yr SIE yn Abertawe ym mis Mawrth, ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf (Caerdydd) oedd y tîm a ddaeth i'r brig o ran cydweithio fel tîm, sgiliau cyflwyno a'u dealltwriaeth o'r pynciau dan sylw.

Yr ysgolion eraill a gymerodd ran oedd Ysgol Uwchradd Bedwas (Caerffili), Ysgol Gyfun Gatholig yr Esgob Vaughan (Abertawe), Ysgol Brynmawr, Ysgol Babyddol Cardinal Newman (Rhydyfelin), Ysgol Greenhill (Dinbych-y-pysgod), Ysgol Howell's (Caerdydd), Ysgol Dyffryn Taf (Hendy-gwyn), Ysgol Gyfun Llanhari (Pont-y-clun) ac Ysgol Gyfun Gŵyr (Abertawe).

www.cewc-cymru.org.uk

## DIGWYDDIADAU TYMOR YR HAF – COFRESTRWCH NAWR

### 9 MAI 2008: MODEL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

**Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**



Mae'r digwyddiad blynyddol hwn yn galluogi myfyrwyr i drafod materion o bwys yng Nghymru, ac yn cynnig dealltwriaeth ddyfnach iddynt o'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio. Cynlluniwyd ef i gydweddu â bywydau prysur disgyblion a myfyrwyr heddiw, lle nad oes cyfle iddynt wneud gwaith ymchwil manwl cyn y digwyddiad.

Bydd pob myfyriwr yn cael chwarae rhan naill ai **gwas sifil** (gan gynrychioli un o bwyllgorau'r Cynulliad), **Aelod Cynulliad** (dros y Blaid Lafur, Plaid Cymru, y Ceidwadwyr neu'r Democratiaid Rhyddfrydol), neu un o **Weinidogion** Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn y bore, bydd myfyrwyr yn gweithio fesul grwpiau gyda chynrychiolwyr go iawn o'r Cynulliad, gan gyfrannu at ymarferion ymgynghorol ar faterion megis polisi addysg, cynaliadwyedd a diwylliant. Yn y prynhawn, daw'r holl gyfranogwyr at ei gilydd mewn sesiwn lawn yn 'hen' Siambr y Cynulliad, i ddadlau ynglŷn â'r polisïau a ddyfeisiwyd yn y bore.

Mae Model y Cynulliad Cenedlaethol yn agored i ddisgyblion a myfyrwyr rhwng 14-18 oed o unrhyw ysgol, coleg neu grŵp ieuenctid yng Nghymru, ac fe'i cynlluniwyd i ategu meysydd ar y cwricwlwm ysgol gan gynnwys Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Cewch fanylion llawn o e-bostio cewc@wcia.org.uk i dderbyn llythyr a ffurflen gofrestru.

### 1 A 2 MAI 2008: CWRS HYFFORDDI LEFEL 1 MEWN ATHRONIAETH I BLANT

**Y Deml Heddwch, Caerdydd**



Os ydych yn awyddus i sbarduno eich disgyblion i feddwl mewn ffordd greadigol a beirniadol, yna dyma'r cwrs i chi. Bydd yn cynnig cyflwyniad llawn i'r dull addysgu Athroniaeth i Blant (P4C). Mae'r cwrs wedi ei achredu gan SAPERE, sydd yn hyrwyddo P4C trwy'r DU.

Yn ogystal â chynorthwyo wrth ddysgu meysydd pwnc, gall P4C gyfoethogi Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, a gofynion Sgiliau Meddwl cwricwlwm cenedlaethol 2008.

Anogir trafodaeth agored a chydweithio trwy gydol y cwrs, sy'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Cyflwyniad i theori a manteision P4C
- Sesiynau ymarferol – dysgwch trwy roi cynnig ar y dull P4C
- Hwyluso ymchwiliad athronyddol yn effeithiol
- Arweiniad ar gysylltiadau â'r cwricwlwm ac amserlennu P4C
- Cyngor ar adnoddau defnyddiol
- Y cyfle i wylio fideos o P4C ar waith

Y gost ar gyfer y cwrs dibreswyl hwn fydd **£225 y pen** (£160 ar gyfer ail athro neu fwy o'r un ysgol). Mae hyn yn cynnwys 2 ddiwrnod llawn o hyfforddiant, cinio a lluniaeth ysgafn, taflenni gwybodaeth y cwrs, 2 lawlyfr gwrs, tystysgrif SAPERE, a'r cyfle i ymuno â SAPERE am £15 (50% o'r gost arferol).

Ewch i www.cewc-cymru.org.uk i lawrlwytho ffurflen gofrestru ar gyfer y cwrs.




Dylunio elfen.co.uk


## CYSYLLTU BYWYDAU YNG NGHYMRU A SBAEN



Mae mam gorff CEWC-Cymru, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, yn cefnogi prosiect dwyieithog o bwys ar ymwneud Cymru yn Rhyfel Cartref Sbaen (1936-39). Dyma gyfle gwych i ysgolion i fynd i'r afael â thrafod materion fel natur rhyfel, arwriaeth, gwerth hanes, a'n perthynas â phobl mewn mannau eraill yn y byd.

Mae'r prosiect ***Breuddwydwyr Doeth a Ffôl*** yn cynnwys arddangosfa deithiol ynghyd â DVD, posteri a llyfr lliwgar, a deunyddiau addysgiadol ar gyfer athrawon a myfyrwyr. Dyma'r mannau nesaf y bydd yr arddangosfa'n ymweld â nhw ar ei thaith:

| | |
|---|---|
| **5 Ebrill hyd 10 Mai 2008** | Amgueddfa Pont-y-pŵl |
| **12 Mai hyd 11 Gorffennaf 2008** | Canolfan Dreftadaeth Y Bers, Wrecsam |

I drefnu gweithdy addysgiadol, neu i gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch stephenthomas@wcia.org.uk.

## YMUNWCH Â CEWC-CYMRU I GAEL MWY GAN EIN GWASANAETHAU!

Os ydych yn awyddus i ddatblygu gwaith eich ysgol ym maes addysg dros ddinasyddiaeth fyd-eang, beth am ddod yn aelod? Rydym yn cynnig dau fath o aelodaeth:

### AELODAETH GYSWLLT I YSGOLION/COLEGAU

Dyma ffurf draddodiadol CEWC-Cymru ar aelodaeth. Bydd ysgolion a cholegau sy'n dod yn Aelodau Cyswllt yn derbyn gwahanol fanteision, gan gynnwys:

- Ymweliadau a gweithdai ar bynciau byd-eang ag ysgolion yn rhad ac am ddim
- Sesiynau blasu ar feddwl yn feirniadol, cyfranogi mewn democratiaeth a gwaith prosiect o fathau eraill gan CEWC-Cymru yn rhad ac am ddim
- Prisiau gostyngol ar sesiynau hyfforddiant mewn swydd
- Prisiau gostyngol wrth gymryd rhan yn ein cynadleddau a'n digwyddiadau

### SYSTEM AELODAETH AR-LEIN

Mae hon yn cynnig mynediad at dros 60 o gynlluniau gwersi, ein pecyn addysgu *Sgiliau ar gyfer Democratiaeth*, ac adnoddau defnyddiol eraill.

Am ragor o fanylion ynglŷn â'r naill fath o aelodaeth a'r llall, ewch i www.cewc-cymru.org.uk/aelodaeth.

## ADNODDAU YN RHAD AC AM DDIM

Mae archifau CEWC-Cymru yn gartref i gyfoeth o adnoddau dysgu, cyfnodolion a llyfrau ar faterion o bwys byd-eang fel tlodi, datblygu cynaliadwy, hawliau dynol a gwrthdaro. Carem gynnig y cyfle i ysgolion sy'n aelodau â ni i dderbyn, **yn rhad ac am ddim**, adnoddau a allai fod o gymorth i chi wrth ddysgu dinasyddiaeth fyd-eang. E-bostiwch ni yn cewc@wcia.org.uk, gan roi disgrifiad byr o'ch cais, a byddwn yn gwneud ein gorau glas i anfon deunydd fydd yn cwrdd â'ch gofynion.


CEWC-CYMRU, Y DEML HEDDWCH, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3AP
FFÔN (029) 2022 8549 FFACS (029) 2064 0333 E-BOST cewc@wcia.org.uk
Elusen gof. rhif 1048759